OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2001 No. 2189

Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001

Swyddogaethau cynghorwyr personol

12.—(1) Bydd gan gynghorydd personol y swyddogaethau canlynol(**1**)—

(a) mewn perthynas â phlant cymwys a pherthnasol, y swyddogaethau a restrir ym mharagraff (2); a

(b) mewn perthynas â chyn blant perthnasol, y swyddogaethau a restrir ym mharagraff (2) heblaw is-baragraff (b).

(2) Dyma'r swyddogaethau —

(a) rhoi cyngor (gan gynnwys cyngor ymarferol) a chymorth iddynt;

(b) cymryd rhan yn eu hasesiadau ac yng ngwaith paratoi eu cynlluniau cam nesaf;

(c) cymryd rhan mewn adolygiadau o'u cynlluniau cam nesaf;

(ch) cysylltu â'r awdurdod lleol cyfrifol wrth i'r cynllun cam nesaf gael ei weithredu;

(d) cyd-drefnu gwaith darparu gwasanaethau iddynt, a chymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod yn defnyddio'r gwasanaethau hynny;

(dd) parhau'n gyfarwydd â'u cynnydd a'u llesiant; ac

(e) cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw un o'i gysylltiadau â hwy.

(**1**) Yn ychwanegol gall yr awdurdod lleol cyfrifol ei gweld yn dda trefnu i'r cynghorydd personol weithredu ar ei ran wrth ddarparu gwasanaethau eraill yn unol ag adran 17(5)(b) o'r Ddeddf.